WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2023

# DIGWYDDIADUR

GWEITHGAREDDAU CYFFREDINOL

## DIOGELU MEWN CYMUNEDAU GWLEDIG

Diogelu mewn Cymunedau Gwledig yw thema rhaglen eang ei chwmpas sy'n cael ei chynnal ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer Wythnos Genedlaethol Diogelu, sy'n dechrau ar 13 Tachwedd 2023. Cydlynwyd y rhaglen gan CWMPAS a CYSUR, y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, ac eleni fe'i cynlluniwyd mewn ymateb i rai o'r materion sy'n dod i'r amlwg mewn ardaloedd gwledig megis y rhai yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.

Mae uchafbwynt yr wythnos yn cynnwys cynhadledd lansio ar gyfer ymarferwyr aml-asiantaeth, a gynhelir ar Faes Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd. Bydd y ffocws ar Iechyd Meddwl o fewn cymunedau gwledig a bydd yn cynnwys cyflwyniadau a gweithdai i gefnogi'r thema hon.

Yn ystod yr wythnos, byddwn hefyd yn cynnal ystod o ddigwyddiadau, gan gynnwys cynadleddau a gweminarau, a fydd yn ceisio codi ymwybyddiaeth o faterion sy'n effeithio ar blant ac oedolion mewn perygl a'u hamlygu. Mae hyn yn cynnwys gweminar sy'n cael ei darparu gan heddlu Dyfed-Powys, sy'n ymdrin â rhaglen Prevent, yn egluro beth ydyw, yr ideolegau sy'n dod i'r amlwg y gall pobl agored i niwed ddod i gysylltiad â nhw, a beth maen nhw'n ei wneud i gefnogi pobl trwy gynllun Channel. Mewn gweminarau eraill, byddwn hefyd yn cael ein cyflwyno i'r strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol sydd newydd ei datblygu, yn cyflwyno sesiwn codi ymwybyddiaeth yn ymdrin â'r materion sy'n wynebu'r gymuned ffermio a gweminar ar Gam-drin Plant yn Rhywiol gyda staff o'r Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (Canolfan CSA).

Cefnogir y rhaglen ranbarthol gan ddigwyddiadau cenedlaethol a gynhelir ar draws Cymru gyfan. Mae hyn yn cynnwys lansio fframwaith hyfforddi a strategaeth newydd i gyd-fynd â'r safonau a lansiwyd y llynedd gan Gofal Cymdeithasol Cymru a digwyddiad sy'n cael ei gynnal gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ar Ddadansoddiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant yng Nghymru.

**DRWY'R WYTHNOS**

GWEFAN: Gwybodaeth a Newyddion

Rhannu adnoddau a gwybodaeth sy'n gysylltiedig â digwyddiadau a themâu rhanbarthol

## Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

**DRWY'R WYTHNOS**

Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL: Hyrwyddo a Rhannu Gwybodaeth

Rhannu negeseuon allweddol sy'n gysylltiedig â'r thema 'Diogelu mewn Cymunedau Gwledig', a hyrwyddo digwyddiadau rhanbarthol.

#DiogeluCymru #Safeguarding Wales

WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2023

# DIGWYDDIADUR

DYDD LLUN, 13 TACHWEDD

## CENEDLAETHOL

**10:00am**

**Lansiad Rhithwir Fframwaith Safonau Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu Diogelu Cenedlaethol**

Gofal Cymdeithasol Cymru , 10am—11am, Microsoft Teams

Bydd Llywodraeth Cymru yn nodi dechrau Wythnos Genedlaethol Diogelu 2023 drwy lansio'r Fframwaith Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu Diogelu Cenedlaethol.
Ymunwch â nhw a'u siaradwyr gwadd i ddarganfod mwy am y fframwaith a sut y bydd yn effeithio arnoch chi.

Mae'r fframwaith yn ychwanegiad pwysig at y Safonau Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu Cenedlaethol, a gyhoeddwyd yn 2022.

Cliciwch yma i gofrestru ar gyfer y digwyddiad hwn

## RHANBARTHOL

**2:00pm**

**Plismona Gwrthderfysgaeth Cymru: PREVENT**

Microsoft Teams, 2pm – 3pm

Mae rhaglen PREVENT yn ymwneud â diogelu ein cymunedau rhag bygythiad terfysgaeth trwy atal pobl rhag ei gefnogi neu ddod yn derfysgwyr eu hunain. Bydd y sesiwn hon yn cynnig amlinelliad o beth yw rhaglen PREVENT, yr ideolegau sy'n dod i'r amlwg y gall pobl agored i niwed ddod i gysylltiad â nhw a beth mae Heddlu Dyfed-Powys yn ei wneud i gefnogi pobl trwy gynllun Channel.

Cliciwch yma i gofrestru ar gyfer y digwyddiad hwn

## Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

**TRWY'R DYDD**

HYRWYDDO CYFFREDINOL A RHANNU GWYBODAETH

Negeseuon i'w rhannu yn gysylltiedig â themâu allweddol a nodwyd a digwyddiadau rhanbarthol trwy Facebook, Twitter ac Instagram

WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2023

# DIGWYDDIADUR

DYDD MAWRTH, 14 TACHWEDD

## RHANBARTHOL

**9:30am**

**GWEMINAR: Atal Hunanladdiad ymhlith Pobl Ifanc (SPEAK) , a ddarperir gan PAPYRUS (Atal Hunanladdiad Ifanc).**

Microsoft Teams, 9.30m – 1pm. **(Wedi'i gynnal gan Sir Benfro, lleoedd ar gael i weithwyr Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Phowys).**

SPEAK – Suicide Prevention Explore, Ask, Keep-Safe (Atal Hunanladdiad, Archwilio, Gofyn, Cadw'n Ddiogel). Cyflwyniad i sgiliau atal hunanladdiad.

Yr amcanion allweddol yw:

- Ystyried yr agweddau, y mythau, a'r stigma sy'n gysylltiedig â hunanladdiad
- Archwilio'r 'arwyddion' a allai ddangos bod rhywun yn meddwl am hunanladdiad
- Annog sgwrs agored, ddiogel a sensitif am hunanladdiad gyda pherson sy'n meddwl am hunanladdiad
- Cefnogi cynllun diogelwch gyda rhywun sy'n meddwl am hunanladdiad.

Cadwch eich lle yma: : scwwdpTr@pembrokeshire.gov.uk

**10:00am**

**Lansio Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod a Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)**

Microsoft Teams, 10am – 12:30pm

Bydd y weminar yn cynnwys amlinelliad o'n strategaeth ranbarthol adolygedig sy'n defnyddio'r wybodaeth yr ydym wedi'i dysgu am yr hyn sy'n gweithio i unigolion, teuluoedd a chymunedau yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, a'r gwaith sydd eto i'w wneud i sicrhau newid a gwelliannau pellach i unigolion a theuluoedd sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol yn ein cymunedau.

Byddwch yn clywed gan oroeswyr, ymarferwyr a darparwyr, a fydd yn rhannu eu profiadau a gwybodaeth am ein gwaith rhanbarthol ar ymyrraeth cyflawnwyr, darpariaeth y Gwasanaeth Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig, ein hymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth ranbarthol, a chanfyddiadau adolygiad thematig o'n Hadolygiadau Lladdiadau Domestig rhanbarthol.

Cliciwch yma i gadw eich lle

## Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

**TRWY'R DYDD**

HYRWYDDO CYFFREDINOL A RHANNU GWYBODAETH

Negeseuon i'w rhannu yn gysylltiedig â themâu allweddol a nodwyd a digwyddiadau rhanbarthol trwy Facebook, Twitter ac Instagram

WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2023

# DIGWYDDIADUR

DYDD MERCHER, 15 TACHWEDD

## CENEDLAETHOL

**9.30am**

**GWEMINAR: Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru: Adolygiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant**

9.30am – 12pm a 12.30pm – 3pm drwy Microsoft Teams

Mae Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru, mewn partneriaeth â Metropolis ym Mhrifysgol Fetropolitan Manceinion, yn falch o gyhoeddi eu cynhadledd ar-lein flynyddol. Bydd yn cynnwys cyflwyniadau gan yr Athro Michelle McManus ac Emma Ball o Brifysgol Fetropolitan Manceinion, yr Athro Louise Almond o Brifysgol Lerpwl, Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru

Cliciwch yma i gofrestru ar gyfer y digwyddiad hwn

## RHANBARTHOL

**10:00am**

**GWEMINAR: "Diogelu ein cymunedau ffermio a'u teuluoedd"**
Zoom 10am – 11am (**Wedi'i gynnal gan Gyngor Ceredigion, lleoedd ar gael i bartneriaid rhanbarthol).**

Mae tîm Dysgu a Datblygu Cyngor Sir Ceredigion yn falch o gynnal sesiwn wybodaeth gan elusen Tir Dewi ar y risgiau sy'n wynebu ein cymunedau ffermio, a'r ffordd orau y gallwn eu cefnogi nhw a'u teuluoedd.

Cysylltwch â dysgu@ceredigion.gov.uk i gadw eich lle

## Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

**TRWY'R DYDD**

HYRWYDDO CYFFREDINOL A RHANNU GWYBODAETH

Negeseuon i'w rhannu yn gysylltiedig â themâu allweddol a nodwyd a digwyddiadau rhanbarthol trwy Facebook, Twitter ac Instagram

WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2023

# DIGWYDDIADUR

DYDD IAU, 16 TACHWEDD

## RHANBARTHOL

| | |
|---|---|
| **9:00am** | **Cynhadledd: Diogelu mewn Cymunedau Gwledig gan ganolbwyntio ar Iechyd Meddwl**<br>9am – 4.30pm Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanfair-ym-Muallt, LD2 3SY.<br><br>Yn unol â thema ranbarthol eleni o Ddiogelu mewn Cymunedau Gwledig, bydd Awdurdod Lleol Powys yn cynnal cynhadledd wyneb yn wyneb yn canolbwyntio ar Iechyd Meddwl mewn Cymunedau Gwledig. *Sylwch fod hwn yn ddigwyddiad wyneb yn wyneb*<br><br>Bydd gweithdai yn cynnwys:<br>• Nici Evans – Cam-drin Plant yn Rhywiol - Adferiad ar Draws Cwrs Bywyd<br>• Glenis Vivers a Jess Metcalf – The Man Box<br>• Claire Phillips a Rob Painter – Mentrau Lles Staff<br><br>Anfonwch e-bost at Practice.development@powys.gov.uk i gofrestru |

## Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

| | |
|---|---|
| **TRWY'R DYDD** | HYRWYDDO CYFFREDINOL A RHANNU GWYBODAETH<br><br>Negeseuon i'w rhannu yn gysylltiedig â themâu allweddol a nodwyd a digwyddiadau rhanbarthol trwy Facebook, Twitter ac Instagram |

WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2023

# DIGWYDDIADUR

DYDD GWENER, 17 TACHWEDD

## RHANBARTHOL

**9:30am**

### Rheoli Risg a Thrawma ar ôl Troseddu Rhywiol Ar-lein: Adnodd Ymarfer Newydd

Gweminar Ar-lein 9.30am – 10.30am

**Cyflwynydd: Dr Natasha Sabin, Cynghorydd Gwella Ymarfer Canolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol**

Yn ystod y weminar hon bydd Dr Natasha Sabin, un o awduron "Managing risk and trauma after online sexual offending: A whole-family safeguarding guide" yn tywys cyfranogwyr trwy fanylion yr adnodd, i gefnogi gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda theuluoedd sydd â'r dasg anodd o asesu risg tra'n darparu cefnogaeth emosiynol ac ymarferol.

Cliciwch yma i gofrestru

## Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

**TRWY'R DYDD**

HYRWYDDO CYFFREDINOL A RHANNU GWYBODAETH

Negeseuon i'w rhannu yn gysylltiedig â themâu allweddol a nodwyd a digwyddiadau rhanbarthol trwy Facebook, Twitter ac Instagram